**LC424**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid (Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid o China) (Rheoli) (Cymru) 2002**

Mae'r rhain yn gweithredu Penderfyniad gan y Comisiwn sy'n ymwneud â mesurau diogelu mewn perthynas â chynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid a fewnforir o China.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 6(2)**

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi nodi os yw offeryn statudol yn arfer pŵer i gymhwyso darpariaethau deddfiad yn ddarostyngedig i addasiadau, nid yw'n briodol darparu ar gyfer hyn drwy roi testun wedi'i addasu o'r darpariaethau cymwysedig (Sesiwn 1993-94, Adroddiad 28 , paragraff 2).

Gan fod y rheoliadau presennol wedi'u gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, nid yw rheoliad 6(2) wedi'i wneud yn unol â phŵer penodol i gymhwyso deddfiadau ag addasiadau. Serch hynny, gan mai dyna'r hyn a wnaed, ystyrir y byddai wedi bod yn fwy boddhaol i 6(2) nodi'r addasiadau penodedig yn hytrach na rhoi'r testun diwygiedig yn unig. Gallai'r defnyddiwr wedyn gael mantais testun diwygiedig drwy roi'r testun hwnnw mewn atodlen.

**Pwyntiau teipograffyddol**

Bydd angen cywiro'r pwyntiau canlynol yn y fersiwn a gyhoeddir –

- Nodyn esboniadol – yn y geiriau mewn cromfachau o dan y pennawd yn lle'r gair “Order” dylid rhoi “Regulations”.
- Nodyn esboniadol – yn y paragraff cyntaf yn lle “2002/62” dylid rhoi “2002/69”.
- Rheoliad 2(1) – yn y diffiniad o “the Act” mae angen troednodyn i roi rhif pennod y Ddeddf.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Chwefror 2002